Safon ansawdd NICE ar gyfer gwlychu'r gwely mewn plant a phobl ifanc

18 Medi 2014

Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae safonau ansawdd NICE yn helpu i wella meysydd allweddol iechyd a gofal iechyd fel bod pobl yn cael cynnig y gofal gorau sydd ar gael.

Mae'r wybodaeth hon yn egluro'r gofal a'r cymorth a ddisgrifir yn safon ansawdd 70 NICE ar enwresis nosol (gwlychu'r gwely) mewn plant a phobl ifanc.

Gwlychu'r gwely

Mae'r safon ansawdd yn cynnwys pum datganiad sy'n disgrifio gofal o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc sy'n gwlychu'r gwely. Mae'r datganiadau hyn yn nodi safon y gofal y dylent ei dderbyn.

1. Caiff plant a phobl ifanc sy'n gwlychu'r gwely asesiad lle y gofynnir cwestiynau iddynt hwy (a'u rhieni neu ofalwyr os yw'n briodol) er mwyn helpu i ganfod beth sy'n digwydd, beth allai fod yn ei achosi, ac i gael gwybod mwy am unrhyw broblemau perthnasol eraill a allai fod ganddynt.

2. Rhoddir dyddiad cytûn i blant a phobl ifanc sy'n gwlychu'r gwely a gaiff gyngor ynghylch newid eu harferion dyddiol er mwyn eu helpu i roi'r gorau i wlychu'r gwely (neu y rhoddir cyngor i'w rhieni neu ofalwyr) er mwyn adolygu eu cynnydd a ph'un a oes angen unrhyw driniaeth arall.

3. Bydd plant a phobl ifanc sy'n gwlychu'r gwely, lle nad yw'r sefyllfa wedi gwella ar ôl newid eu harferion dyddiol (a'u rhieni neu ofalwyr os yw'n briodol)

yn trafod triniaethau posibl (megis larwm gwlychu'r gwely neu feddyginiaeth) gyda'u gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

4. Caiff plant a phobl ifanc sy'n gwlychu'r gwely gynllun cytûn ar gyfer eu triniaeth (megis defnyddio larwm gwlychu'r gwely neu gymryd meddyginiaeth) a gallant gael y driniaeth a nodir yn eu cynllun.

5. Caiff plant a phobl ifanc sy'n gwlychu'r gwely, nad yw eu sefyllfa wedi gwella ar ôl rhoi cynnig ar driniaethau cychwynnol (megis larwm gwlychu'r gwely a/neu feddyginiaeth) eu hatgyfeirio at arbenigwr a all roi cymorth ychwanegol.

Eich gofal

Dylai eich tîm iechyd a gofal cymdeithasol egluro unrhyw driniaeth, gofal neu gymorth y dylid ei gynnig i chi er mwyn i chi benderfynu ar y cyd beth sydd orau i chi.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan NICE am ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Rhagor o wybodaeth am wlychu'r gwely mewn plant a phobl ifanc

Mae NICE hefyd wedi llunio canllawiau (cyngor) ar enwresis nosol. Defnyddiwyd y canllawiau i ddatblygu'r safon ansawdd hon.

Ffynonellau cyngor a chymorth i blant a phobl ifanc sy'n gwlychu'r gwely, eu teuluoedd a'u gofalwyr

- ERIC (Addysg ac Adnoddau ar gyfer Gwella Ymataliaeth Mewn Plentyndod), 0845 370 8008
  www.eric.org.uk

- PromoCon, 0161 607 8219
  www.promocon.co.uk

Gallwch hefyd gysylltu ag NHS Choices i gael rhagor o wybodaeth am iechyd a gofal cymdeithasol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

Mae nifer o sefydliadau sy'n rhannu ymrwymiad NICE i wella ansawdd yn y maes hwn yn cefnogi'r safon ansawdd hon yn ffurfiol. Efallai y gallant hefyd ddarparu cyngor a chymorth. I gael rhestr o'r sefydliadau hyn, gweler y safon ansawdd enwresis nosol ar wefan NICE.

ISBN: 978-1-4731-0822-6